# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD LLUN, 1 TACHWEDD 2021

## BWRDD ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac P.A.Rees (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, I.Guy, R.Crowhurst, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd P A Rees yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod. Roedd pob un ohonynt wedi cael goddefebau i siarad a phleidleisio ar faterion ysgol:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P A Rees | Cofnod Rhif 4 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2023, gan ei fod yn Gynghorydd mewn dwy ysgol yn CNPT. |
| Y Cynghorydd A R Lockyer | Cofnod Rhif 4 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2023, gan ei fod yn Gynghorydd yn Ysgol Gynradd y Gnoll ac yn Llywodraethwr yng Nghastell-nedd. |
| Y Cynghorydd S Reynolds | Cofnod Rhif 4 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 -2023, gan ei fod yn Gynghorydd yn YGG Gwauncaegurwen ac yn ymddiriedolwr yng ngwasanaeth Lots of Tots Childcare Canolfan Maerdy |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Mizen | Cofnod Rhif 4 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2023 gan ei fod yn Gynghorydd yn Ysgol Gyfun Cwmafan ac Ysgol Cwm Brombil. |

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

4. **CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032**

Nododd yr aelodau wall teipio o fewn argymhelliad yr adroddiad ar dudalen 13 o'r bwndel – roedd yn darllen “Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod aelodau'n cymeradwyo ymgynghori ar y WESP drafft, gydag ymgynghoriad i'w gynnal o 5 Tachwedd 2021 i 7 Ionawr 2022 ar gyfer 2022-2032" Penderfynwyd tynnu "ar gyfer 2022-2032' fel yr adlewyrchir yn y penderfyniad isod:

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwywyd ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft 2022-2032, gydag ymgynghoriad i’w gynnal rhwng 5 Tachwedd 2021 a 7 Ionawr 2022.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori a osodwyd ar y cyngor gan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau WESP (Cymru) 2019.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

**CADEIRYDD**